18 Chwefror 2019

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Nodyn Atgoffa - Taliadau ar-lein

Cyfeiriaf at ein llythyr dyddiedig 28 Ionawr 2019 yn eich hysbysu y bydd ysgolion cynradd Dalgylch Brynrefail i gyd yn symud i dderbyn taliadau am ginio, clwb gofal cyn-ysgol, gwersi offerynnol, tripiau, gwersi nofio, ffrwythau, llefrith, dillad ysgol ayb ar-lein yn unig o **4 Mawrth 2019**. Ni fydd yr ysgol yn derbyn arian parod (gan gynnwys sieciau) ar ôl y dyddiad hwn.

Hyderaf eich bod erbyn hyn wedi cofrestru ar y 'schoolgateway' ac wedi ymgyfarwyddo eich hunain efo'r drefn newydd. Os nad ydych wedi cael y cyfle eto, gweler isod am gyfarwyddiadau o beth sydd angen i chi ei wneud.

Beth sydd angen i chi ei wneud?

Agor cyfrif ar wefan Cyngor Gwynedd drwy ddilyn www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif. Bydd angen cyfeiriad e-bost i gwblhau'r broses.

Agor cyfrif 'Schoolgateway' am gymorth i ddefnyddio'r system ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/talueichysgol Bydd angen cyfeiriad e-bost a rhif ffôn symudol i gwblhau'r broses. Rhaid i'r cyfeiriad e-bost a rhif ffôn symudol gyfateb gyda'r manylion yr ydych wedi ei ddarparu i'r ysgol. Os nad ydych wedi darparu'r wybodaeth yma i'r ysgol hyd yma, anfonwch e-bost i taluysgol@gwynedd.llyw.cymru gan nodi:

- Enw'r Ysgol Gynradd
- Enw eich plentyn/plant
- Enw'r rhiant/gwarchodwr fydd yn gwneud y taliadau
- Cyfeiriad e-bost a rhif ffôn symudol y rhiant/gwarchodwr fydd yn gwneud y taliadau

Wedi i chi gwblhau'r uchod bydd y 'schoolgateway' yn barod i chi ei ddefnyddio a bydd yr ysgol yn gosod taliadau am amryw o bethau arno i chi dalu am y gwasanaethau.

Cofiwch, bydd enw pob rhiant/gwarchodwr sydd wedi cofrestru ar y 'schoolgateway' erbyn 1 Mawrth 2019 yn cael ei roi mewn het efo'r cyfle i ennill iPad.

Os hoffwch drafod cynnwys y llythyr yna cysylltwch gyda'ch ysgol.

Yn gywir,

Gwern ap Rhisiart
Swyddog Addysg Ardal Gwynedd
Cyngor Gwynedd

Pennaeth

18 February 2019

Dear Parent/Guardian,

Reminder - Online Payments

We write further to our letter dated 28 January 2019 informing you that primary schools in the Brynrefail catchment will be moving to online payments only for lunch, pre-school care club, instrument lessons, trips, swimming lessons, fruit, milk, school uniform etc from **4 March 2019**. Your school will not be accepting cash/cheques after this date.

I trust by now that you have registered on the 'schoolgateway' and familiarised yourself with the new system. If you have yet to register, please see below for guidelines on how to.

What you need to do?

Open a Gwynedd Council account by following www.gwynedd.llyw.cymru/myaccount. You will need an e-mail address for this process.

Create a 'Schoolgateway' account, for help on how to use the system go to www.gwynedd.llyw.cymru/payyourschool You will need an e-mail address and a mobile phone number to complete the process. The e-mail address and mobile telephone number must match the information you have provided to your school. If you have not yet provided your school with this information, send an e-mail to schoolpayments@gwynedd.llyw.cymru noting:

- Name of Primary School
- Your child/children's name
- Name of parent/guardian making the payments
- E-mail address and mobile telephone number of the parent/guardian making the payments

Once you have completed the above, the 'schoolgateway' will be ready for you to use. The school will adding various payment requests to enable you to pay for the services.

Remember, every parent/guardian's name who have registered on the 'schoolgateway' by 1 March 2019 will be entered into a draw for a chance to win an iPad.

Please contact your school should you need to discuss the contents of this letter.

Yours sincerely,

Gwern ap Rhisiart
Gwynedd Area Education Officer
Gwynedd Council

Headteacher